Cyngor Cymuned Hydref 27 2016 yng Nghapel Tabor

Presennol Margaret Lewis, Morgan Morgans, Islwyn Jones, Fred Jones, Huw Griffith, Peter Tandy, Dai Jones, Rowland Rees Evans a'r clerc.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Medi 22, ac arwyddwyd eu bod yn gywir

Materion yn codi

Ymholiadau ynglŷn â hysbysfwrdd. Adroddodd Dai Jones y byddai'n bosib cael deunydd addas yn gefn i'r hysbysfwrdd heb orfod newid unrhyw beth arall. Gofynnwyd i Peter Tandy brynu'r deunydd a'i roi yn ei le.

Goleuadau rhybudd plant ysgol ddim yn gweithio. Cafwyd ateb o Aberaeron fod nifer o ysgolion eraill yn yr un sefyllfa a rhaid aros am brisiau oddi wrth gontractwyr arbenigol. Byddai Llangwyryfon yn un o'r rhai cyntaf ar y rhestr i gael eu cywiro wedyn.

Arolwg ffiniau etholaethau. Atebwyd fod y sylwadau a anfonwyd wedi eu derbyn.

Mast Ffôn symudol. Dim ateb oddi wrth y cwmni ond deallwyd fod O2 a Vodaphone yn gweithio erbyn hyn.

Cais i ddiddymu llwybr ceffyl 24/2 (Penbryn). Penderfynodd y Cabinet beidio dileu'r llwybr.

Gohebiaeth

Heddlu Dyfed-Powys yn cyflwyno'i swyddogion lleol ac yn gofyn am gael dod i gyfarfod o'r Cyngor Cymuned. Cytunwyd i estyn croeso iddynt i'r cyfarfod nesaf.

Archwilydd Allanol. – adroddiad archwilio diamod ond bod angen llythr ffurfiol oddi wrth yr archwiliwr mewnol. Hefyd wedi anfon Hysbysiad o gwblhau'r archwiliad i'w roi mewn man cyhoeddus, a ffurflen i werthuso'u gwasanaeth. Bydd y tâl yn £186 + TAW. (BDO y llynedd yn £175 + TAW)

Ymgynghoriad ar Waredu Ffônau Talu BT. Gwnaed y sylw fod y defnydd o'r ffôn yn y ciosg yn y pentref yn isel iawn am fod angen cerdyn i'w ddefnyddio. Ond gan y gellid defnyddio ffôn symudol yn y pentre erbyn hyn nid oedd yr un angen am gadw ffôn yn y ciosg.

Derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru, Pwyllgor Rheoli Datblygu, Cyfarfod Cymunedol Gofal Iechyd y Canolbarth, Cyfarfod Blynyddol Age Cymru

Hysbysiad oddi wrth Awdurdod Tân ac Achub yn cyflwyno Cynllun Corfforaethol Drafft ar gyfer 2017-2022 ag sydd i'w weld ar wefan yr Awdurdod.  Hefyd hysbysiad am ymgynghoriad ar Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg sydd ar wefan y Cyngor Sir.

Gwahoddiad i Eisteddfod Ysgol Henry Richard

Gwybodaeth am ymgyrch Cymhennu Ceredigion.

Cais am gymorth ariannol oddi wrth Theatr Felinfach ac Eisteddfod Llangollen - y ddau i gael eu hystyried ym mis Ionawr.

Hysbysiad am gau ffordd dros dro i'w arddangos mewn man cyhoeddus.

Materion Ariannol

Awdurdodwyd talu cyflog y clerc £200, prynu torch pabi coch £17 a thalu bill trydan £42.59.  Ar ôl gwneud y taliadau hyn fe fydd £2298.66 yn weddill, a £6301.48 yng nghyfrif rhif2.

Newid enwau'r rhai sy'n arwyddo sieciau.  Nid yw hyn wedi ei gyflawni eto am i'r ffurflenni gael eu dychwelyd gan y banc oherwydd fod camgymeriad ynddynt.  Gwnaed y cywiriadau yn barod i'w hanfon eto

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 17 Tachwedd, yng Nghapel Tabor